# Enwi'r parc cenedlaethol newydd arfaethedig yng Nghymru

Os caiff dynodiad parc cenedlaethol ei gymeradwyo, mae angen enw ar gyfer y gorchymyn dynodi, ac felly mae angen dewis un ymlaen llaw. Os na wneir hynny yn ddigon cynnar yn y broses ni fyddai amser ar gyfer proses gynhwysol ac ystyriol ar ôl penderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2025.

Er mwyn osgoi hyn a sicrhau cyfle i'r cyhoedd gyfrannu, dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y broses yn 2024. Yn gyntaf, ymgynghorwyd â'r grŵp enwi safleoedd a lleoedd a rhestr o enwau lleoedd hanesyddol o fewn CNC, ynghylch sut i fynd ati i gychwyn ar y broses. Wedi hynny, ymgynghorwyd â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.  Trafodwyd set eang o egwyddorion gan gynnwys defnyddio enw Cymraeg neu enw dwyieithog sy'n berthnasol ac yn briodol i ddiwylliant, hanes a daearyddiaeth yr ardal, ac yn ddelfrydol, enw y gall pawb ei ynganu a'i gofio'n hawdd.

Rydym yn ddiolchgar i Dr January-McCann o'r Comisiwn Brenhinol am ymgymryd ag ymchwil yn seiliedig ar yr ardal chwilio, a pharatoi rhestr fer o awgrymiadau, ynghyd ag amlinelliad byr o'u perthnasedd i hanes, diwylliant neu ddaearyddiaeth yr ardal.

| | |
|---|---|
| **Powys Fadog** | Powys Fadog oedd enw hanner gogleddol teyrnas Powys ar ôl iddi gael ei rhannu yn dilyn marwolaeth y Tywysog Madog ap Maredudd ym 1160. Cynhwysai gantrefi Maelor a Mochnant Is Rhaeadr, ynghyd â chymydau Iâl, Nanheudwy, Cynllaith a Glyndyfrdwy, ac ar adegau, ymestynnai cyn belled â'r Wyddgrug yn y gogledd a Chorwen yn y gorllewin. Goroesodd Powys Fadog tan ar ôl y goresgyniad, pan gafodd ei diddymu, ynghyd â theyrnasoedd eraill Cymru, o dan delerau Statud Rhuddlan ym 1282.<br>Mae manteision defnyddio'r enw hwn ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig fel a ganlyn: Powys Fadog yw enw hanesyddol ardal ganolog y parc, a dyma'r unig diriogaeth hanesyddol sy'n cwmpasu ardal fwyaf y parc;gallai cynnwys yr enw 'Powys' gynorthwyo derbyniad y parc newydd gan drigolion yr ardaloedd yn Sir Drefaldwyn y bwriedir eu cynnwys; mae cysylltiad ag Owain |

| | |
|---|---|
| | Glyndŵr, gan ei fod yn ddisgynnydd uniongyrchol i reolwr annibynnol olaf Powys Fadog.<br>Mae'r anfanteision fel a ganlyn: ni fu rhan Sir y Fflint o'r ardal o harddwch naturiol eithriadol erioed yn rhan o Bowys Fadog, nac ychwaith yr ardal rhwng afon Tanat ac afon Banwy yn Sir Drefaldwyn, sy'n dod o fewn y ffiniau arfaethedig; felly, nid yw'r enw hanesyddol yn disgrifio'r ardal gyfan yn gywir. |
| **Glyndŵr** | Owain Glyndŵr oedd y Cymro olaf i gael ei alw yn Dywysog Cymru. Yn ddisgynnydd i dai brenhinol Aberffraw a Phowys, arweiniodd wrthryfel yn erbyn rheolaeth Lloegr ym 1400, ac erbyn 1404 roedd yn rheoli dros Gymru gyfan. Cynhaliodd Glyndŵr senedd ym Machynlleth, lle amlinellodd ei gynlluniau i ailgyflwyno Deddfau Hywel Dda, sefydlu dwy brifysgol ac eglwys i Gymru yn annibynnol ar awdurdodaeth Caergaint. Erbyn 1409 roedd y Saeson wedi adennill ei gadarnleoedd olaf, ac ym 1415 fe ddiflannodd Glyndŵr. Er gwaethaf y pris mawr a roddwyd ar ei ben, ni chafodd Glyndŵr ei ddal erioed, ac o ganlyniad y mae wedi ennill statws chwedlonol fel y Mab Darogan, a fydd un diwrnod yn dychwelyd i Gymru ac yn ei rhyddhau.<br>Mae manteision defnyddio'r enw hwn ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig fel a ganlyn: roedd Glyndŵr yn hanu o'r Gogledd-ddwyrain, ac yn byw yn Sycharth, o fewn ffiniau'r parc;mae ei gyfenw, Glyndŵr, yn amrywiad ar Glyndyfrdwy, un o ranbarthau cyfansoddol y parc, a dechreuodd ei wrthryfel yn y Gogledd-ddwyrain; yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae yna gryn ddiddordeb yng Nglyndŵr, ac o ganlyniad byddai'r enw hwn yn gyfarwydd ar unwaith, ac yn sicrhau y byddai pobl leol yn ei gefnogi.<br>Mae'r anfanteision fel a ganlyn: mae Glyndŵr, am resymau amlwg, yn dra chysylltiedig â'r awydd am annibyniaeth; gyda thwf yr ymgyrch annibyniaeth dros y degawd diwethaf, mae'r ddadl am annibyniaeth wedi dod yn un flaenllaw yng ngwleidyddiaeth Cymru, ac felly byddai perygl y byddai enwi'r parc ar ôl Glyndŵr yn arwain at gyhuddiadau o duedd o blaid cenedlaetholwyr. |
| **Bryniau Clwyd a Berwyn** | Mae Bryniau Clwyd yn rhan o enw'r ardal o harddwch naturiol eithriadol presennol. Daw'r enw yn wreiddiol o'r afon Clwyd, a roddodd ei henw i gantref canoloesol Dyffryn Clwyd. Mae'r enw Bryniau Clwyd yn ei gyfanrwydd yn dyddio'n ôl o leiaf cyn belled â 1900, ac i gynulleidfa fodern mae'n dwyn i gof enw'r ardal llywodraeth leol rhwng 1974 a 1996. Y Berwyn yw enw'r gadwyn o fynyddoedd sy'n ymestyn i'r de o Ddyffryn Dyfrdwy trwy'r rhan o Sir Drefaldwyn y bwriedir ei chynnwys yn y parc newydd.<br>Mae manteision defnyddio'r enw hwn fel a ganlyn: mae'n disgrifio ardal ddaearyddol y parc yn berffaith ac mae'n enw uniaith Gymraeg, heb gyflwyno unrhyw eiriau na fyddai siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn gyfarwydd â hwy; mae Berwyn yn enw hanesyddol, ac mae Bryniau Clwyd yn dwyn i gof enw hanesyddol.<br>Mae'r anfanteision fel a ganlyn: mae'r enw'n eithaf hir, yn enwedig pan gaiff 'Parc Cenedlaethol' ei roi o'i flaen neu 'National Park' ar ei ôl; nid yw'n awgrymu ardal unedig, ond yn hytrach dwy ardal wahanol sydd wedi'u huno. |

| | |
|---|---|
| **Ordoficiaid / Ordovices** | Mae'r enw Ordoficiaid yn cyfeirio at y cyfnod daearegol, sydd yn ei dro wedi'i enwi ar ôl y llwyth a oedd yn meddu ar diriogaeth yn y Canolbarth a'r Gogledd-orllewin yn ystod y cyfnod Rhufeinig a chyn hynny.<br>Mae manteision defnyddio'r enw hwn fel a ganlyn: byddai'n golygu defnyddio enw hanesyddol sydd o leiaf 2,000 o flynyddoedd oed; roedd tiriogaeth yr Ordoficiaid yn ymestyn dros ran ddeheuol y parc, ac felly mae'n gweithio'n dda fel enw daearyddol.<br>Mae'r anfanteision fel a ganlyn: heblaw am ddaeareg, nid yw'r enw Ordoficiaid yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin, ac felly efallai nad yw'n gyfarwydd i lawer o bobl; er i'r Ordoficiaid fyw mewn rhan o ardal arfaethedig y parc, byddai'n gamarweiniol dweud eu bod yn parhau i fyw yno heddiw, ac felly gellid cwestiynu perthnasedd yr enw; ni fyddai rhan fawr o'r parc yn hen diriogaeth yr Ordoficiaid, ond yn hytrach yn hen diriogaeth y Deceangli (Tegeingl yn Gymraeg Modern). |

Yn haf 2024 ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch y broses enwi, a chynhaliwyd cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2024 â chynrychiolwyr o CADW, Croeso Cymru ac adran bolisi y Gymraeg. Trafodwyd y cynnydd a wnaed ar y broses hyd yma, a'r hyn y bwriedid ei wneud ar gyfer y dyfodol ynghyd ag amrywiaeth o bethau y byddai angen eu hystyried o bosibl. Daeth un awgrym ychwanegol i'r amlwg – Gororau – yn ystod y drafodaeth hefyd, ac fe'i ychwanegwyd at y rhestr i'w ystyried. Cafodd y broses a'r bwriad ar gyfer y dyfodol eu cymeradwyo'n eang, gan gynnwys y bwriad i gynnwys cwestiwn ynghylch yr enw yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Cyflwynwyd yr enwau arfaethedig, a rhai sylwadau ynghylch eu haddasrwydd posibl, i'w hystyried gan y Panel Safoni Enwau Lleoedd Cymru. Cyfarfu'r panel ym mis Medi 2024 a rhoddodd yr adborth canlynol:

| **Enw a gynigir / Proposed name** | **Ymateb y panel / Panel's response** |
|---|---|
| **Powys Fadog** | Nid yw'r panel yn argymell mabwysiadu'r enw hwn. Er bod y panel yn cydnabod seiliau hanesyddol amlwg yr enw hwn, mae'r enw *Powys* yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at endid gwahanol heddiw, a gallai hyn beri dryswch.<br><br>The panel does not recommend adopting this name. Despite the clear historical basis, *Powys* today refers to a different entity, and the panel feared this may cause some confusion. |
| **Glyndŵr** | Yr enw syml a chryno hwn yw'r un a ffefrir gan y panel. Mae'n unfryd mai *Glyndŵr* yw'r enw sy'n bodloni meini prawf CNC orau. Mae'n enw cyfarwydd (yn y ddwy iaith) ac yn enw â chysylltiadau hanesyddol eglur ac amlwg. Nid yw'r panel yn rhoi gormod o bwys ar y ddadl y gellid cysylltu'r enw hwn yn rhy agos â'r |

| | |
|---|---|
| | mudiadau cenedlaetholgar neu o blaid annibyniaeth. Mae'r enw wedi cael ei ddefnyddio mewn sawl cyd-destun am ddegawdau, gan gynnwys fel enw rhanbarth llywodraeth leol yng Nghlwyd gynt rhwng 1974 ac 1996, ac fel enw prifysgol hyd yn ddiweddar iawn. Mae'n amserol efallai bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cyhoeddi ei gynigion cychwynnol ar gyfer adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd yr wythnos hon a bod Glyndŵr yn rhan o un o'r enwau a gynigir.  Mae yna hefyd nifer o endidau anwleidyddol (gan gynnwys yn y sector preifat) sy'n defnyddio'r enw hwn ar hyn o bryd, e.e. Llwybr Glyndŵr – Llwybrau Cenedlaethol.<br><br>This simple and concise name was strongly favoured by the panel. It is unanimous in its opinion that *Glyndŵr* is the name that best fits NRW's criteria. It is a familiar name (in both languages), with strong historic links. The panel does not put too much weight on the argument that the name might be associated with a nationalist / pro-independence bias. The name has been used in many contexts for decades, including as a local government district in the former Clwyd between 1974 and 1996, and a university until the recent renaming. It is timely perhaps that Democracy and Boundary Commission Cymru has published its initial proposal report for the 2026 review of Senedd constituencies just this week, and Glyndŵr forms part of a proposed name. There are also many non-political entities (including in the private sector) currently using this name, e.g. Glyndwr's Way National Trail \| VisitWales. |
| **Bryniau Clwyd a'r Berwyn** | Roedd y panel yn credu bod yr enw hwn yn ddisgrifiad da o'r ardal dan sylw, ond y mae ychydig yn hir ac yn anhylaw. Roedd y panel hefyd yn cwestiynu a fyddai angen fersiwn Saesneg hefyd, o ddilyn y trywydd hwn. Sylwer, fodd bynnag, bod y fannod yn rhan annatod o enw'r Berwyn, felly **Bryniau Clwyd a'r Berwyn** fyddai'r ffurf safonol.<br><br>The panel felt that this was a good description of the area in question, but it is rather long and unwieldy. The panel also questioned whether you would need an alternative for use in English if this route were followed. Please note that the Welsh definite article is an integral part of the name *Y Berwyn,* so **Bryniau Clwyd a'r Berwyn** would be the standard form. |
| **Ordoficiaid / Ordovices** | Nid yw'r panel yn argymell mabwysiadu'r enw hwn. Nodwyd gan y panel fod yna risg mewn defnyddio'r enw hynafol ac anghyfarwydd hwn na fyddai'n golygu llawer i'r mwyafrif. Nodwyd hefyd na fyddai rhan helaeth o'r parc yn perthyn i'r rhanbarth hanesyddol hwn.<br><br>The panel does not recommend adopting this name. The panel noted that there is a risk in using an ancient and unknown name that would not mean much to the majority. It also noted that a large part of the park would not actually belong to this historic territory. |

| | |
|---|---|
| **Y Gororau** | Nid yw'r panel yn argymell mabwysiadu'r enw hwn. Roedd y panel o'r farn bod y cynnig hwn yn rhy gyffredinol ac amhenodol.<br><br>The panel does not recommend adopting this name. The panel believes that this suggestion is too general and unspecific. |

Yn seiliedig ar y cyngor hwn a'n teimlad y dylid cyflwyno o leiaf ddau opsiwn i'r cyhoedd, culhawyd y rhestr o gynigion i 'Glyndŵr' a 'Bryniau Clwyd a'r Berwyn' (gan nodi'r cywiriad bach a gynghorwyd gan y panel).


## Ymgynghoriad cyhoeddus 2024

Roedd cwestiwn am yr enw wedi'i gynnwys yn holiadur yr ymgynghoriad cyhoeddus. Dyma ddyfyniad o adroddiad yr ymgynghoriad:

**CWESTIWN 5E:**

OS SEFYDLIR PARC CENEDLAETHOL, BYDDAI ANGEN ENW NEWYDD ARNO. GAN WEITHIO GYDA PHARTNERIAID, RYDYM WEDI NODI DAU OPSIWN.

- PARC CENEDLAETHOL – BRYNIAU CLWYD A'R BERWYN – NATIONAL PARK
- PARC CENEDLAETHOL – GLYNDŴR – NATIONAL PARK




***Ffigur 1:*** *Archwilio opsiynau enwau posibl ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig*

**Commented [JG1]:** With respect to the pie chart abov
"Other" = "Arall".

Also "Park" should read "Parc" in Welsh instead, i.e. "P
Cenedlaethol" (with a C, not a K).

Thanks

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un o'r ddau opsiwn, neu nodi eu bod am ddewis opsiwn arall. Atebodd 1,528 o'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur y cwestiwn hwn, fel a ganlyn: 49.5% (757) Parc Cenedlaethol – Glyndŵr – National Park; 27.8% (424) Parc Cenedlaethol – Bryniau Clwyd a'r Berwyn – National Park; 22.7% (347) enw arall.

Roedd ail ran y cwestiwn yn caniatáu i'r ymatebwyr awgrymu enw arall a/neu roi cyfiawnhad byr dros eu hateb. Yn adran 'arall' y cwestiwn, rhoddwyd y dewis i ymatebwyr awgrymu enw arall, ac ysgrifennu cyfiawnhad dros eu dewis. Roedd yr opsiwn hwn ar gael i unrhyw ymatebydd, p'un a ydoedd wedi dewis un o'r ddau enw arfaethedig neu wedi dewis ei enw eu hun. Cafwyd 562 o ymatebion i'r opsiwn hwn. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus, ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## ENW ARALL

Awgrymodd 88 o ymatebwyr (15.7%) enwau eraill, a oedd yn cynnwys *'Parc Cenedlaethol Clwyd' a* '*Bryniau Clwyd'*. Ni ddaeth unrhyw enw amgen i'r amlwg o'r toreth o wahanol awgrymiadau a ddaeth i law.

## PWYSIGRWYDD HANESYDDOL / DIWYLLIANNOL

Soniodd 50 o ymatebwyr (8.9%) am 'bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol'. Amlinellodd pob un o'r ymatebwyr a awgrymodd Glyndŵr arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr enw a'i dreftadaeth. Er enghraifft, *'Mae gan Glyndŵr ogwydd hanesyddol.'* Teimlai eraill y gallai galw parc cenedlaethol ar ôl Glyndŵr *'wanhau chwedl Glyndŵr',* ac roeddent yn ofni *'bod gan yr enw ormod o gynodiadau cenedlaetholgar'*, tra bod eraill yn teimlo nad oedd yr enw *'yn adnabyddus y tu allan i Gymru'*. Teimlai llawer a ddewisodd 'Bryniau Clwyd a'r Berwyn', er gwaethaf arwyddocâd hanesyddol Glyndŵr, y dylai enw parc cenedlaethol newydd adlewyrchu ardal y parc cenedlaethol ac nid cymeriad hanesyddol.

## ENW HAWDD EI YNGANU

Roedd 30 o ymatebwyr (5.3%) am gael 'enw hawdd ei ynganu'. Yn bennaf, teimlai ymatebwyr, gan y byddai mwyafrif yr ymwelwyr yn ôl pob tebyg yn siarad Saesneg, y byddai'n synhwyrol defnyddio enw y gallai siaradwyr Saesneg ei ynganu. Dywedodd rhai, *'Mae Glyndŵr yn fyr, yn gofiadwy, yn hawdd i'r di-Gymraeg ei ynganu, a hefyd yn enw llwybr cerdded sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.'*

## ENW HAWDD EI GOFIO

Roedd 22 o ymatebwyr (3.9%) am gael enw 'hawdd ei gofio'. Teimlai'r mwyafrif y dylai unrhyw enw newydd fod yn *'fachog'.* Dywedodd rhai eu bod yn *'hoffi'r cyfeiriad at naill ai Clwyd neu Glyndŵr'* ond yn teimlo mai *'symlrwydd piau hi'.*

## HYD YR ENW

Gwnaeth 20 o ymatebwyr (3.6%) sylwadau ar 'hyd yr enw'. Teimlai'r holl ymatebwyr y dylai'r enw ar gyfer parc cenedlaethol fod *'yn fyr'* ac *'yn gofiadwy'.* Nododd rhai fod angen *'enw byr a fydd yn taro tant â chynulleidfa eang'.* Dywedodd y rheini a ddewisodd *'arall'*, *'Mae angen*

*enw clir a byr. Mae Glyndŵr yn rhy annelwig, a Bryniau Clwyd a'r Berwyn yn rhy amwys.'* Awgrymodd rhai fod *'Parc Cenedlaethol Clwyd yn ddigon da'*.

**DAEARYDDOL**

Gwnaeth 20 o ymatebwyr (3.6%) sylwadau yn ymwneud â daearyddiaeth. O'r ymatebwyr a ddewisodd 'Bryniau Clwyd a'r Berwyn', eglurodd pob un mai hwn oedd yn disgrifio'r ardal orau, gan ddarparu cyd-destun daearyddol. Er enghraifft, mae'n *'disgrifio'r ddaearyddiaeth',* ac *'Mae'r enw daearyddol yn llawer gwell, ac yn dwyn mynyddoedd a dyffrynnoedd i gof. Hyfryd!"* Eglurodd yr ymatebwyr na ddewisodd y naill opsiwn na'r llall nad oedd yr enwau'n cwmpasu digon o ardal y parc cenedlaethol arfaethedig, gyda rhai yn nodi, *'Nid yw Clwyd / Berwyn yn cwmpasu'r holl ardaloedd. Ni ddylid parhau â 'Clwyd'. Mae 'Glyndŵr' yn well ond yn cael ei gysylltu, yn bennaf, ag ardaloedd Dyffryn Dyfrdwy / Llansilin.'*

Ym mis Mehefin 2025, rhannwyd y canfyddiadau hyn eto â'r grŵp enwi safleoedd a lleoedd a rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yn CNC, gan gynnig, wrth bwyso a mesur tystiolaeth a barn y rheini yr ymgynghorwyd â hwy, y dylid argymell yr enw 'Glyndŵr' i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru at ddibenion paratoi gorchymyn dynodi, pe bai angen. Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ionawr, ymatebodd y grŵp fel a ganlyn:

'Cytunodd y grŵp â chanfyddiad yr adroddiad a rannwyd, gan werthfawrogi, er nad enw daearyddol oedd Glyndŵr, fod y canfyddiad yn eithaf adnabyddus a'i fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r grŵp yn cefnogi'r canfyddiad.'

## Casgliad

Os bydd awdurdod parc cenedlaethol yn cael ei sefydlu, yna gallai newid ei enw. Fodd bynnag, mae gan CNC gyfrifoldeb i baratoi'r gorchymyn dynodi gan ddefnyddio enw priodol sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol, ac y mae rhywfaint o gonsensws yn ei gylch. 'Felly, rydym wedi cydnabod y cyfiawnhad hanesyddol a ddarparwyd gan y Comisiwn Brenhinol, yr adborth gan y Panel Safoni Enwau Lleoedd Cymru, dewis y mwyafrif a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad cyhoeddus, a'r adborth gan y grŵp enwi safleoedd a lleoedd a rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Yn seiliedig ar hyn, y casgliad yw mai 'Glyndŵr' yw'r enw a ffefrir ac a argymhellir i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf 2025 at ddibenion paratoi gorchymyn dynodi (os mai dyma fydd penderfyniad y bwrdd). Bryd hynny gofynnir i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru asesu a ydyw'n ddymunol dynodi ac, os cytunir, awdurdodi'r prosiect i fwrw ymlaen i ymgynghoriad statudol yn ddiweddarach yn 2025.